



Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd

Croeso i 4ydd rhifyn cylchlythyr CorCenCC! Mae'r amser yn hedfan ar y prosiect, ac wrth i'r haf fynd yn ei flaen, felly hefyd mae ein cynlluniau'n datblygu. Yn y rhifyn cyfredol, cewch sôn am rai o weithgareddau mis Mehefin (a dechrau mis Gorffennaf), yn anad dim, cynadleddau a digwyddiadau cyhoeddus lle'r ydyn ni wedi bod yn lledu'r gair am ein gweledigaeth ar gyfer y prosiect ac yn casglu enwau darpar gyfranwyr at y corpws. Yn ogystal, byddwn ar ein ffordd i'r Eisteddfod Genedlaethol fis Awst (manyllion isod) – petaech yn digwydd bod yna, galwch heibio i ddweud helô! Mae'r tîm yn edrych ymlaen at gynadleddau a chyflwyniadau gwadd yn Tokyo a Slofenia hefyd – ond rhagor am hynny mewn rhifyn diweddarach.

Weddill yr haf, gwneir gwaith cyffrous ar y datblygiadau terfynol ar gyfer ap torfoli CorCenCC – yr hwn y mae Cydymaith Ymchwil Dr Steven Neale yn brysur yn ei ddatblygu. Gobeithiwn lansio yn ystod y misoedd nesaf, yna fyddwn yn casglu data ar garlam (a byddwn yn galw ar bawb sy'n siarad Cymraeg i gyfrannu at hynny ☺). Rydym hefyd yn cynllunio i lansio safle swyddogol prosiect CorCenCC cyn bo hir (www.corcenc.org a www.corcenc.cymru). Cadwch lygad ar y rhain ill dau!

Gan ddychwelyd at y cylchlythyr cyfredol – mae'r rhifyn hwn yn cynnwys newyddion prosiect diweddar (o fis Mehefin), erthyglau ar rai o'r digwyddiadau mae aelodau tîm y prosiect wedi'u mynychu, ac rydym yn cymryd y cyfle i gyflwyno aelod arall o dîm CorCenCC, sef Dr Gareth Watkins.

Mwynhewch! Dr Dawn Knight (Prifysgol Caerdydd)

Newyddion

Dymunwn gymryd y cyfle i groesawu'n wresog aelod diweddarar'r tîm, Yr Athro Colin Williams. Mae'r Athro Colin Williams yn Gymrawd yng Ngholeg Coleg Sant Edmwnd, Prifysgol Caergrawnt. Ar ben hynny, y mae'n Athro er Anrhydedd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Roedd yn aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod 2000-2011. Mae'n arbenigwr rhyngwladol ar bolisi iaith a chynllunio ieithyddol. Mae Colin yn ymuno a'r tîm fel aelod o Grŵp Ymgynghorol y Prosiect. Croeso, Colin!



Cynadleddau a digwyddiadau

1. IVACS 2016

Cynhaliwyd cynhadledd ddwyflynyddol IVACS (Inter-varietal Applied Corpus Studies) ar 16^{eg} ac 17^{eg} Mehefin yng nghampws prydferth Prifysgol Sba Caerfaddon. Dyma oedd cyfle i aelodau o dîm CorCenCC ledaenu'r gair am ein cynnydd a'n cynlluniau ar gyfer y corpws, ymglyfarwyddo ag ymchwil gyfredol ym maes ieithyddiaeth Corpws, a dod i adnabod ymchwilwyr eraill... dan ddylanwad bwyd da yng nghinio'r gynhadledd yn Ystafelloedd Pwmp Caerfaddon!



mewn cyflwyniad arall, am yr heriau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddatblygu corpora o ieithoedd dwyreiniol.

Rhoddodd Steve Neale a Gareth Watkins (uchod) bapur am un o agweddau mwyaf arloesol prosiect CorCenCC: sef, defnydd torfoli i adeiladu'r corpws.



Drwy ap pwrpasol, bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu recordio eu sgysiau

Cymraeg a'u huwchlwytho i'r corpws ynghyd â gwybodaeth berthnasol megis oeddrannau'r cyfranogwyr a ble maent yn byw. Bydd yr ap yn galluogi siaradwyr Cymraeg o bob cwr o Gymru i gyfrannu at CorCenCC yn hwylus.

Cyflwynwyd papur diddorol arall, o'r enw 'Corpus-informed discourse analysis: a methodology for exploring context in spoken corpora', gan brif ymchwilydd CorCenCC, Dawn Knight, ar y cyd â chydweithiwr, Michael Handford. Hefyd, elwon ni o gyflwyniadau ysgogol ynghylch defnydd corpora ar gyfer dysgu ieithoedd, a fydd yn hynod ddefnyddiol wrth i ni



ddylunio pecyn cymorth pedagogaid CorCenCC (WP4). Diolch am yr ysbrydoliaeth!

Mair Rees a Jennifer Needs

2. Tafwyl

Aeth tîm CorCenCC i ŵyl Tafwyl ym mis Gorffennaf – gŵyl Gymraeg flynyddol dinas Caerdydd. Er bod nifer o'r ymwelwyr yno yn dioddef ar ôl buddugoliaeth y tîm cenedlaethol yn erbyn Gwlad Belg yn Ewro 2016 y noson gynt, daeth cynulleidfa dda i babell Llenyddiaeth Cymru i glywed Steve Morris a Mair Rees yn sôn am y prosiect, y gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn a sut gallen nhw gyfrannu at CorCenCC eu hunain. Yn wir, dyma oedd un o'r prif nodau trwy ddod i Dafwyl, sef ceisio recriwtio pobl y gyfrannu at y corpws.



Steve Morris a Mair Rees



Ymunodd Dawn Knight a Gareth Watkins yn y gwaith – ac roedden ni'n ffodus fod un o'n llysgenhadon Nia Parry yno i ledu'r gair hefyd. Llwyddwyd i gael rhestr dda o enwau posibl erbyn diwedd y dydd. Y bwriad yw gwneud rhywbeth tebyg yn yr

Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni ym mis Awst gan sicrhau bod rhestr dda o gyfranwyr posibl gennym erbyn mis Medi.

Cyfrannwyd gan Steve Morris



Gareth Watkins, Dawn Knight, Steve Morris a Nia Parry

3. Digwyddiadau eraill: Awst 2016

➤ Eisteddfod Genedlaethol (29^{ain} Gorffennaf i 6^{ed} Awst, Y Fenni)

Bydd aelodau o dîm CorCenCC yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol er mwyn hysbysu'r cyhoedd am brif nodau'r prosiect, a manylu ar sut y gallan nhw fynd ynghlwm yn y gwaith. Cynhelir cyflwyniadau anffurfiol ar y prosiect ym mhabell Prifysgol Caerdydd am 11yb ar 2^{il} Awst ac ym mhabell Prifysgol Abertawe am 11yb ar 3^{ydd} Awst (ond byddwch yn dod o hyd i ni ar y safle drwy gydol y ddau ddiwrnod). Am ragor o fanylion, gweler: <https://eisteddfod.cymru/>

Cwrdd â'r tîm

Bob mis byddwn yn rhoi sylw i aelod gwahanol o'r tîm CorCenCC estynedig yn ein cylchlythyr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bawb ddweud ychydig wrthy ch chi am eu cefndir; beth maen nhw am ei weld o CorCenCC a sut maen nhw'n credu y gallai gyfrannu at eu gwaith eu hunain, neu yn fwy cyffredinol, at waith eraill yng Nghymru. Y mis yma mae'r sbotolau ar Dr Gareth Watkins, sy'n Gynorthwydd Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd.

Proffil: Dr Gareth Watkins



Fi yw'r un ar y chwith

Wrth fyfyrto, ac wrth apelio i'm hawen am ysbrydoliaeth i ysgrifennu'r darn hwn, ces i fy atgoffa o gynhadledd technoleg iaith a fynychais ym Marcelona sbel nôl. Yn y gynhadledd wnes i gyflwyno ymchwil ar sut y mae cyfieithwyr Cymru yn defnyddio systemau cof cyfieithu, sy'n fath o dechnoleg sydd wedi ei greu at ddiben helpu cyfieithwyr wrth iddynt gyfieithu.

Dyna un o'm diddordebau ymchwil fi, fy arbenigedd, mewn gwirionedd. Y pwnc wnes i gwblhau doethuriaeth arno fe gwpl o flynyddoedd yn ôl, a dweud y gwir.

Ond nôl at y gynhadledd. Wrth sgwrsio dros goffi, digwyddes i sôn wrth un o'm gyd cynadleddwyr fy mod i ddim yn ystyried fy hun yn gyfieithydd, fel y cyfryw. Sioc a syndod enbyd oedd ymateb yr unigolyn yma (mewn ffordd o siarad). Sut ar y ddaear yw'n bosib fod yn arbenigwr ar dechnoleg cyfieithu heb brofiad o weithio yn gyfieithydd? Wel, dyma fi'n egluro'n slic digon, yn ddigon hawdd! Wedi'r cwbl, mae yna bobl yn yr hen fyd yma sy'n arbenigwyr ar forgwn, er eu bod nhw erioed wedi 'brathu syrffars a'u llyncu

mewn un', chwedl Mr Huw (dyw hyn ddim cant y cant yn wir, ni chyfeiriais at gân Mr Huw yn uniongyrchol yn y Gymraeg mewn gwirionedd, am mai Saesneg oedd iaith y sgwrs - efallai fod deunydd cyfieithydd o ryw fath ynof wedi'r cwbl).

Os ddim yn gyfieithydd, beth felly? Yn academydd? Ie. Yn ymchwilydd? Yn sicr. Yn rhywun sy'n ymddiddori yn yr iaith Gymraeg, ac yn ei pherthynas a thechnoleg? Dau farc tic mawr arall.

Beth yw perthynas prosiect CorCenCC â hyn oll? I fi, yn bersonol, dyma gyfle i gyfuno tri o'm mhrif ddi-ddordebau, hynny yw ymchwil, y Gymraeg, a thechnoleg. Ond, 'mond un Cymro Cymraeg fach ymysg dros hanner miliwn o Gymry Cymraeg ydw i. Beth am y lleill? Wel, yn gyffredinol, mae'n sicr bod gan brosiect CorCenCC y potensial i gyffwrdd â phob un ohonynt, boed yn hen neu'n ifanc, yn iaith gyntaf neu'n ail iaith, yn ogleddwr neu'n ddeheuwr, a phawb arall yn y canol. Mae CorCenCC yn brosiect y gall Cymry Cymraeg teimlo ei fod yn eiddo iddyn nhw.

Yn fwy penodol (ac felly nôl at faes fy arbenigedd), bydd adnodd o'r fath yn cyfrannu at faes technoleg iaith, ac o ganlyniad i hyn, yn cyfrannu at fywoliaeth a gwaith ein cyfieithwyr. Efallai nad yw'n syndod, yn ôl fy ymchwil i o leiaf, fod canran uchel iawn o gyfieithwyr Cymru ddim yn defnyddio corpysau wrth iddynt gyfieithu. Dim yn syndod o bell ffordd. Wedi'r cwbl, does dim corpws cyffredinol cynhwysfawr ar yr un raddfa â CorCenCC wedi ei greu hyd yma. Dim yn syndod, ond yn siom serch hynny. Byddai corpws yn dra defnyddiol i'n cyfieithwyr.



Fi yw'r un ar y dde!

Wedi'r cwbl, pa beth fyddai'n well declyn i gynorthwyo dawn naturiol cyfieithwyr wrth iddynt ymdrechu i greu cyfieithiad naturiol na chorpws? Pa beth fyddai'n well i'w cynorthwyo wrth iddynt ymdrechu i greu testun sydd ddim yn ymddangos fel cyfieithiad? Pa beth fyddai'n well na chorpws, sy'n gronfa fawr o iaith naturiol, sy'n gronfa o iaith fel ei defnyddir gan siaradwyr yr iaith? Dim byd, am wn i.

CorCenCC ar-lein

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook www.facebook.com/CorCenCC/; Twitter <https://twitter.com/corcencc> (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: corcencc@caerdydd.ac.uk neu ewch i'n gwefan, sef: <http://sites.cardiff.ac.uk/corcencc/>

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y **Prif Ymchwilydd** - Dawn Knight; **y Cyd-Ymchwilydd** - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasic, Paul Rayson, Enlli Thomas, Mark Stonelake a Jeremy Evas; **y Cynorthwyydd Ymchwil** - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Gareth Watkins; **Ymgynghorwyr** - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; **Grŵp Ymgynghorol y Prosiect** - Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: KnightD5@caerdydd.ac.uk

